# Y Gweithdrefnau ar Farwolaeth y Brenin

**Corff Cymeradwyo:** Gweithrediaeth y Brifysgol

**Dyddiad Cymeradwyo:** 15 Ebrill 2025

**Perchennog y polisi:** Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol

**Cyswllt ar gyfer y polisi:** Steve Thomas, stt38@aber.ac.uk

**Statws y polisi:** Diwygiad

**Fersiwn:** 1.0

**Dyddiad y golygiad diwethaf:** Ebrill 2025

**Dyddiad y golygiad nesaf:** Ebrill 2027

# Y Gweithdrefnau ar Farwolaeth y Brenin

1. Diben y ddogfen hon

    1. Nod y gweithdrefnau hyn yw rhoi canllawiau ar gyfer ymateb y Brifysgol pan fydd y Brenin yn marw.

    2. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r *Protocol codi baneri ym Mhrifysgol Aberystwyth*, ac mae copi ohono yn https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/policies/.

    3. Mae'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn berthnasol i farwolaeth y Brenin yn unig. Fel rheol bydd y Brifysgol yn nodi marwolaeth aelodau eraill o Deulu Brenhinol Prydain neu Ffigurau Cenedlaethol o Bwys yn unol â *Phrotocol codi baneri ym Mhrifysgol Aberystwyth*

2. Rhoi'r Gweithdrefnau hyn ar Waith

    1. Rhoddir y gweithdrefnau hyn ar waith gan yr Is-Ganghellor (neu, os nad yw'n bresennol, gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus) pan geir datganiad ffurfiol bod y Brenin wedi marw.

    2. Palas Buckingham a / neu Stryd Downing fydd yn gwneud y datganiad ffurfiol am y farwolaeth. Rhoddir hysbysiad hefyd ar wefan y Teulu Brenhinol (https://www.royal.uk/). Bydd y Brifysgol yn ofalus wrth sicrhau na fydd yn rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith mewn ymateb i adroddiadau heb eu cadarnhau ar y cyfryngau nac i ddyfaliadau yn y cyfryngau cymdeithasol.

    3. Ceir amserlen yn Atodiad A sy'n rhoi crynodeb o sut y bydd y Brifysgol yn ymateb i'r farwolaeth.

3. Baneri

    1. Wrth i’r gweithdrefnau hyn gael eu rhoi ar waith, bydd pob baner yn y brifysgol yn cael eu gostwng fel y byddant ar eu hanner[1], yn unol â *Phrotocol codi baneri ym Mhrifysgol Aberystwyth*. Ar yr un pryd, bydd Baner yr Undeb yn disodli'r faner ar yr ail bolyn baner wrth fynedfa Campws Penglais, ac yn cael ei chodi ar ei hanner wrth ochr y Ddraig Goch.

    2. Drannoeth y farwolaeth (sef 'Diwrnod y Proclamasiwn' pan gyhoeddir y Brenin neu'r Frenhines newydd), codir pob baner i frig y polyn o 11:00. Bydd pob baner yn aros wrth frig y polyn tan 13:00 y trannoeth, pan fyddant yn cael eu gostwng drachefn i'w hanner.  Noder

[1] "Dylid codi baneri ar eu hanner tua dwy ran o dair o’r ffordd i fyny rhwng pen uchaf y polyn baner a’r gwaelod, gydag o leiaf uchder y faner rhwng ymyl uchaf y faner a phen uchaf y polyn baner." (pwynt 3.3; *Protocol codi baneri ym Mhrifysgol Aberystwyth*).

y dylai’r holl amseroedd a restrir gael eu cadarnhau gan ffynonellau swyddogol, sy'n debygol o fod yr amseroedd a gyhoeddir gan y cyfryngau.

3. Bydd pob baner yn aros ar ei hanner wedyn tan 09:00 y bore, drannoeth yr Angladd Wladwriaethol (11 diwrnod ar ôl diwrnod y farwolaeth).

4. Cyfathrebu â'r Staff a'r Myfyrwyr

1. Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus yn trefnu bod gohebiaeth briodol yn cael ei hanfon at y staff a'r myfyrwyr cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Gweithdrefnau hyn gael eu rhoi ar waith.

2. Bydd yr ohebiaeth hon yn rhoi crynodeb o sut y bydd y Brifysgol yn nodi'r farwolaeth, yn unol â'r Gweithdrefnau hyn, gan roi gwybodaeth benodol am:
   a. Llyfrau Cydymdeimlo;
   b. Ennyd o dawelwch;
   c. Trefniadau'r Ŵyl Banc (at ddiwrnod yr Angladd Wladwriaethol); a
   d. Lle y bo'n berthnasol, rhoi gwybod y bydd gohebiaeth bellach yn cael ei hanfon, os oes goblygiadau i arholiadau neu seremonïau graddio (gweler 6.2).

5. Llyfrau Cydymdeimlo

1. Bydd Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod Llyfrau Cydymdeimlad ar gael i staff a myfyrwyr y Brifysgol. Gall y Brifysgol benderfynu cydweithio ar ddarparu Llyfrau Cydymdeimlad gyda phartneriaid lleol eraill. Pan fydd y Brifysgol yn agor ei Llyfrau Cydymdeimlad ei hun, bydd y rhain yn cael eu hagor ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y farwolaeth.

2. Dylai Llyfrau Cydymdeimlad fod ar ffurf rhwymwyr dalennau rhydd (i alluogi aildrefnu tudalennau a gweithredu os cânt eu difrodi). Dylid dewis lleoliadau priodol ar gyfer Llyfrau Cydymdeimlad, gyda darpariaeth ar gyfer y canlynol:
   a. Bwrdd o faint da, sydd wedi'i orchuddio â lliain addas;
   b. Cyflenwad o ysgrifbinnau;
   c. Ffotograff o'r Brenin; a
   d. Blodau.

3. Dylai Llyfrau Cydymdeimlad gael eu cau ar ddiwedd y diwrnod ar ôl diwrnod yr angladd. Ar ôl eu cau, dylid trosglwyddo Llyfrau Cydymdeimlad i'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth i'w cynnwys yn archifau corfforaethol y sefydliad, a dylid anfon llythyr gan Bennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor at yr Archifydd Brenhinol i'w hysbysu am Lyfrau Cydymdeimlad y Brifysgol.

6. Digwyddiadau a drefnasid i'w cynnal yn y cyfnod Galaru

1. Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus yn adolygu'r rhaglen o ddigwyddiadau a oedd wedi'u trefnu i'w cynnal yn y Brifysgol, neu ganddi, yn ystod y cyfnod galaru, a bydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r digwyddiadau, eu canslo neu eu gohirio.

2. Efallai y bydd angen gohirio unrhyw seremonïau graddio a oedd wedi'u trefnu i'w cynnal yn ystod y cyfnod Galaru. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r mater hwn yn unol â gweithdrefnau Parhad Busnes y Brifysgol.

3. Bydd darlithoedd, arholiadau, Diwrnodau Agored a Diwrnodau i Ymgeiswyr yn parhau yn ystod y cyfnod Galaru, ac eithrio diwrnod yr Angladd Wladwriaethol (a fydd yn Ŵyl y Banc). Cymerir camau priodol, fel y bo'n briodol, i aildrefnu unrhyw ddarlithoedd, arholiadau neu ddigwyddiadau sydd angen eu canslo.

## 7. Ennyd o dawelwch

Mae’n bosibl y cynhelir dau funud o dawelwch ledled y DU ar ddiwrnod yr Angladd Wladwriaethol. Os bydd y diwrnod hwnnw yn Ŵyl y Banc swyddogol, bydd y Brifysgol ar gau ar y diwrnod hwnnw (ac eithrio gweithgareddau sy'n hanfodol i'w busnes). Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus yn anfon gohebiaeth briodol at y staff a'r myfyrwyr i roi gwybod iddynt am unrhyw drefniadau ffurfiol i gadw'r tawelwch am ddau funud ar y campws.

**ATODIAD A:** Amserlen

Er y gallai'r amserlen hon newid yn unol ag unrhyw ganllawiau pellach a gyhoeddir, bydd ymateb y Brifysgol yn cyd-fynd â'r amserlen isod:

| Diwrnod | Amser | Disgrifiad | Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| D | | Cyhoeddiad ffurfiol bod y Brenin wedi marw | Rhoddir ar waith y Gweithdrefnau i'w dilyn ar farwolaeth y Brenin | Yr Is-Ganghellor (neu os yw'n absennol, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus). | Gweler pwynt 2.1 |
| | | | Codir Baner yr Undeb ar yr ail bolyn baner wrth fynedfa Campws Penglais.<br><br>Gostyngir holl faneri'r brifysgol i'w hanner. | Pennaeth Rheoli Cyfleusterau | Gweler pwynt 3.1 |
| | | | Anfonir gohebiaeth briodol at y staff a'r myfyrwyr | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol | Gweler pwynt 4.2. |
| D+1 | | Diwrnod y Proclamasiwn | Agor Llyfrau Cydymdeimlad (os ydynt wedi'u lleoli ar y campws) | Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor | Ar D+1 (neu'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y farwolaeth).<br><br>Gweler bwyntiau 5.1 a 5.2. |
| | 11:00 | | Gostwng holl faneri'r brifysgol i'w hanner. | Pennaeth Rheoli Cyfleusterau | Gweler pwynt 3.2. |
| D+2 | 13:00 | | Gostyngir holl faneri'r brifysgol i'w hanner. | Pennaeth Rheoli Cyfleusterau | Gweler pwynt 3.2. |
| D+10 | 11:00 | Yr Angladd Wladwriaethol (Gŵyl y Banc o bosibl) | Dau funud o ddistawrwydd ledled y DU | | Gweler pwynt 7. |
| D+11 | 09:00 | | Disodlir Baner yr Undeb sydd ar yr ail bolyn baner wrth fynedfa Campws Penglais gan y faner a godir fel arfer (yn | Pennaeth Rheoli Cyfleusterau | Gweler pwynt 3.3. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | unol â’r *Protocol codi baneri ym Mhrifysgol Aberystwyth*).<br><br>Gostwng holl faneri’r brifysgol i'w hanner. | | |
| | 17:00 | | Cau Llyfrau cydymdeimlad (lle bo hynny'n berthnasol) | Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor | Gweler pwynt 5.3. |
| | | | Anfon llythyr at yr Archifydd Brenhinol ynglŷn â llyfrau cydymdeimlad (lle bo hynny'n berthnasol) | Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor | Gweler pwynt 5.3. |